

Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Enw'r Polisi: Polisi a Gweithdrefn Apelio

Cod y Ddogfen (os yn berthnasol)

Adran: Cwricwlwm ac Ansawdd

Awdur y Ddogfen: Elizabeth Evans

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd

Dyddiad Cymeradwyo: Medi 2022

Dyddiad Adolygu: Medi 2025

Polisi Coleg Penybont

Bridgend College Policy



Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi	Ie / Na / amherth.	Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	Ie	
Ydy'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	Ie	
Ydy'r Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data.	Amherth	
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	Ie	
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	Na	
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	Na	
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	Na	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	Na	

1. Pwrpas ac Amcanion:

1.1 Sail Resymegol y Polisi

Mae Coleg Penybont wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni dysgu ansawdd uchel i bob dysgwr. College is committed to providing high quality learning programmes for all students. Yn ganolog i hyn mae monitro a gwerthuso ansawdd rhaglenni dysgu i sicrhau bod safonau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol y'u gosodwyd gan sefydliadau dyfarnu yn cael eu bodloni. Mae'r Polisi Apelio ar gael i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd ei ddefnyddio fel rhan o fframwaith Cwricwlwm ac Ansawdd y Coleg. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Addysg Bellach a rhaglenni Addysg Uwch nad ydynt yn cael eu darparu fel rhan o drefniant masnachfreinio â phrifysgol bartner. Ar gyfer rhaglenni Addysg Uwch a gaiff eu darparu fel rhan o drefniant masnachfreinio â phrifysgol bartner, cyfeiriwch at reoliadau a phrosesau'r brifysgol berthnasol.

2. Manylion y Polisi:

2.1 Asesu a Dyfarnu Graddau

Bwriedir i'r broses fod yn deg ac yn hygyrch i bob myfyriwr wrth iddynt wneud cynnydd ar eu rhaglenni astudio dewisol. Dylid rhoi gwybod i bob myfyriwr yn ystod y broses gynefino am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad asesiad, a dylai tîm y cwrs barhau i'w hatgoffa o hyn drwy gydol eu hastudiaethau. Dylai'r asesydd/darlithydd a'r myfyriwr geisio datrys apelïadau yn erbyn penderfyniad asesiad mewn modd anffurfiol. Gall y Gwiriwr Mewnol fod yn rhan yn y trafodaethau anffurfiol hyn wrth iddynt godi, er mwyn ceisio dod i ddatrysiad cynnar. Dylid ceisio datrys apelïadau cyn gyflymed â phosibl.

2.2 Camau Cyn Apelio

Lle bo hynny'n ymarferol, dylai'r myfyriwr drafod ei wrthwynebiad i benderfyniad yr asesiad â'r darlithydd/asesydd cyn gwneud apêl ffurfiol. Dylai'r darlithydd/asesydd fod yn feddwl agored ynghylch y pwyntiau y mae'r myfyriwr yn eu codi, trafod y mater a'r Gwiriwr Mewnol, a cheisio dod i ddatrysiad sy'n golygu nad oes angen apelio. Os na ellir cyflawni hyn, rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr am ei hawl i apelio.

Cydnabyddir bod asesu a graddio gwaith yn wasanaeth hanfodol y mae staff y Coleg yn ei gyflawni. Os yw myfyriwr yn credu bod penderfyniad sy'n ymwneud ag asesu/graddio crynodol yn annheg neu'n afresymol, mae ganddo hawl i herio'r penderfyniad hwnnw. Gallant ymholi ynghylch:

- diffyg cyfle cyfartal i arddangos cymhwysedd neu wybodaeth;
- diffyg meini prawf eglur a manwl;

- anghytundeb rhwng yr asesydd a'r myfyriwr o ran ansawdd y gwaith a gyflwynwyd.

2.3 Y Broses Apelio

- Gall myfyrwyr wneud apêl ar bapur drwy ddefnyddio'r ffurflen yn adran 2.3. Dylid cyflwyno'r apêl ysgrifenedig i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm o fewn y Maes Cwricwlwm, cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi i'r myfyriwr/ymgeisydd gael penderfyniad yr asesiad y gwneir yr apêl yn ei erbyn. Pan fydd myfyriwr yn cyflwyno apêl, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Ansawdd cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, a chyn i'r broses Adolygu Apeliadau gychwyn.
- Rhaid i'r apêl ysgrifenedig gael ei hadolygu a'i thrafod gan y Dirprwy Reolwr Cwricwlwm a'r darlithydd/asesydd a ddaeth i'r penderfyniad, a chael ei hanfon at y Gwiriwr Mewnol/Aswiriwr Ansawdd Mewnol sy'n gyfrifol am safonau sicrhau ansawdd y rhaglen ddysgu honno. Os taw'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm yw'r darlithydd/asesydd a ddaeth i'r penderfyniad, rhaid i'r Rheolwr Cwricwlwm barhau â'r broses isod.
- Rhaid i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm benodi aelod staff cymwys i werthuso'r dystiolaeth a gwneud penderfyniad (Adolygydd yr Apêl). Rhaid i'r unigolyn hwn fod yn annibynnol o benderfyniad gwreiddiol yr asesiad. Gallai Adolygydd yr Apêl fod yn aelod o dîm y rhaglen ddysgu, Dirprwy Reolwr Cwricwlwm o Faes Cwricwlwm gwahanol, neu'n Rheolwr Cwricwlwm.
- Rhaid i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm sicrhau bod strwythur sefydliadol y ganolfan yn cefnogi ystyriaeth wrthrychol o'r apêl.
- Bydd Adolygydd yr Apêl yn llenwi'r ffurflen Adolygiad yr Apêl yn adran 2.4 isod ac yn adrodd yn ôl i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm, a fydd yn dod i benderfyniad terfynol ynghylch yr apêl.
- Rhaid i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm roi gwybod i'r myfyriwr am ganlyniad yr apêl cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi i'r apêl ysgrifenedig gael ei dderbyn.
- Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â chanlyniad yr apêl, gellir gwneud apêl bellach, ar bapur, i'r Tîm Ansawdd cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi i'r Arweinydd Maes Cwricwlwm ar gyfer Ansawdd roi gwybod iddo am y penderfyniad. Dylid defnyddio'r ffurflen Adolygiad yr Apêl yn adran 2.4 isod ar gyfer y cam yma hefyd.

2.3 Ffurflen ar gyfer apêl myfyriwr yn erbyn penderfyniad asesiad

Llenwch a chyflwynwch y ffurflen hon i'ch Dirprwy Reolwr Cwricwlwm cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi i chi gael penderfyniad yr asesiad yr hoffech apelio yn ei erbyn. Darllenwch y **Polisi Apelio** yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon.

Enw a Rhif Adnabod y Myfyriwr:	
Enw Tiwtor y Cwrs:	
Enw'r Gwiriwr Mewnol:	
Teitl a Chod y Cwrs:	
Cydran/Uned:	
Dyddiad yr Asesiad:	
Teitl yr Asesiad:	
Nodwch eich rhesymau dros apelio yn erbyn Penderfyniad yr Asesiad.	
Llofnod y Myfyriwr:	
Dyddiad:	

At ddefnydd y Coleg yn unig:

Adolygydd gan:		Y dyddiad y derbyniwyd yr apêl:	
Enw Adolygydd yr Apêl:		Y dyddiad y penodwyd Adolygydd yr Apêl:	
Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r Tîm Ansawdd:			

2.4 Ffurflen Adolygu Apêl

Rhaid atodi copi o'r **Ffurflen ar gyfer apêl myfyriwr yn erbyn penderfyniad asesiad** berthnasol wedi'i llenwi wrth y ffurflen hon.

Y dyddiad y derbyniwyd yr apêl :	
Enw a Swydd Adolygydd yr Apêl:	
Enw a Rhif Adnabod y Myfyriwr:	
Trosolwg o'r apêl a dderbyniwyd (gan gyfeirio'n fanwl at benderfyniad yr asesiad, y gwaith a aseswyd, a'r dystiolaeth a adolygwyd):	
Penderfyniad argymelledig, a sail resymegol:	
Os yw'r apêl yn llwyddiannus, nodwch y methiant penodol o ran trefn asesu'r ganolfan, a'r camau cyweiriol a argymhellir:	
Llofnod Adolygydd yr apêl:	
Y dyddiad y cwblhawyd Adolygiad yr Apêl:	

I'w llenwi gan yr Arweinydd Maes Cwricwlwm ar gyfer Ansawdd:

Pryd a phwy roddwyd gwybod i'r myfyriwr am ganlyniad Adolygiad yr Apêl?	
Y dyddiad y darparwyd yr holl ddogfennaeth berthnasol i'r Tîm Ansawdd:	
<u>Tîm Ansawdd yn unig</u> : Y dyddiad y cwblhawyd y Cofnod Apeliadau:	

3. Cyfrifoldebau (os yn berthnasol):

Camau i'r ganolfan eu cymryd yn dilyn apêl:-

- Rhaid i dîm y cwricwlwm gadw holl fanylion yr apêl am gyfnod o bum mlynedd. Rhaid hefyd cyflwyno copi o'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r apêl i'r Tîm Ansawdd, a chaiff yr apêl ei chofnodi yn y Cofnod Apeliadau.
- Os yw'r apêl yn llwyddiannus, rhaid i'r Dirprwy Reolwr Cwricwlwm ar gyfer Ansawdd nodi'r methiant penodol o ran trefn asesu'r ganolfan, a chymryd unrhyw gamau cyweiriol.

4. Dogfennau Cysylltiedig (os yn berthnasol):

- Rhaid dilyn Polisi Apeliadau y sefydliad dyfarnu ar gyfer y cymhwyster ar y cyd â'r polisi hwn.

5. Adolygiad y Ddogfen:

Adolygwyd ym mis Rhagfyr 2020: Symudwyd gwybodaeth am y broses apelio o dan Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol 2019/20 o'r prif bolisi i'r atodiad. Diweddarwyd y datganiad agoriadol i gynnwys darpariaeth Addysg Uwch nad yw dan fasnachfaint. Newidiwyd i'r templed newydd ar gyfer polisïau.

FFURFLEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Polisi a Gweithdrefn Apelio				
Perchennog y Polisi	Elizabeth Evans, Cwricwlwm ac Ansawdd				
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Darparu polisi a gweithdrefn ar gyfer apeliadau myfyrwyr yn erbyn penderfyniadau asesiadau				
Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	<input checked="" type="checkbox"/>	Staff	<input checked="" type="checkbox"/>	Y Cyhoedd

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarnhaol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran			x	
Anabledd			x	
Ailbennu rhywedd			x	
Priodas a phartneriaeth sifil			x	
Beichiogrwyd d a mamolaeth			x	
Hil			x	
Crefydd neu gred			x	
Rhyw			x	
Cyfeiriadedd rhywiol			x	

Dyddiad y cwblhawyd: 1 Rhagfyr 2020

Llofnodwyd gan y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad:

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Polisi a Gweithdrefn Apelio				
Perchennog y Polisi	Elizabeth Evans, Cwricwlwm ac Ansawdd				
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Darparu polisi a gweithdrefn ar gyfer apeliadau myfyrwyr yn erbyn penderfyniadau asesiadau				
Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	<input checked="" type="checkbox"/>	Staff	<input checked="" type="checkbox"/>	Y Cyhoedd

Safonau Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhao I (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar — (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.			x

Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant (sut y byddwn yn gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r camau gweithredu)

Dyddiad y Cwblhawyd yr Asesiad: 26.09.2022